Hawdd Ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd



## Rydym am glywed eich barn chi

Llywodraeth Cymru sydd wedi sgrifennu'r ddogfen hon. Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r 'Ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd'.

**Mehefin 2023**

# Cynnwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon 3

Am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 4

Sut bydd y Fframwaith Canlyniadau yn gweithio? 9

Sut olwg fydd ar y Fframwaith? 11

Rydyn ni am glywed eich barn chi 12

Geiriau anodd 15



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47598, ISBN digidol 978-1-83504-058-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen. Ond os ydych chi'n ei gweld hi'n anodd ei darllen, gofynnwch i rywun rydych yn ei nabod i'ch helpu.




Mae'r geiriau mewn **print glas trwm** yn eiriau anodd. Ond rydyn ni'n esbonio beth yw ystyr y geiriau glas ar **dudalen 15**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wrth ddweud ni, rydyn ni'n golygu **Llywodraeth Cymru**. I ddysgu mwy, cysylltwch â:

E-bost: homelessnesspolicy@llyw.cymru

# Am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd




Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru fyw mewn cartref diogel a byw bywyd da. Ond rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd i wneud i hynny ddigwydd.




Mae'r **Fframwaith Canlyniadau** ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn dangos y gwaith rydyn ni'n ei wneud mewn meysydd gwahanol i roi diwedd ar ddigartrefedd.



Mae'r **fframwaith** yn anodd ei ddeall, ond rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi amdano.

Fel hyn mae'r **fframwaith** wedi'i osod allan:



Ein nod ni yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Gallwn weld a ydyn ni wedi llwyddo ein nod trwy edrych ar:



- Faint o bobl sydd wedi cael eu helpu i aros yn eu cartref.
- Faint o bobl sy'n ddigartref.



- Faint o bobl sy'n ddigartref ac yn byw ar y stryd.




- Faint o bobl sydd wedi cael help i ffeindio cartref newydd.

Bydd y pethau hyn yn dangos i ni ein bod yn gwneud pethau'n iawn:



- Bod nifer y bobl sy'n cael eu helpu i aros yn eu cartref yn codi.

- Bod nifer y bobl sy'n ddigartref yn mynd i lawr .



- Bod nifer y bobl sy'n ddigartref ac yn byw ar y stryd yn mynd i lawr.



- Bod nifer y bobl sy'n cael help i ffeindio cartref newydd yn codi.

I weld y **fframwaith** llawn, cliciwch yma [www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd](www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd)




Mae Llywodraeth Cymru wedi sgrifennu cynllun ar sut i roi diwedd ar ddigartrefedd.



Ystyr digartref yw bod heb gartref i fyw ynddo. Mae honno'n sefyllfa anodd **iawn** i bobl orfod delio â hi.




Enw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yw'r: Cynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.



Mae'r Cynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yn dweud bod rhaid creu Fframwaith Canlyniadau er mwyn i ni allu gweithio gyda'n gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd.



Mae pobl o gyrff gwahanol wedi gweithio ar y **Fframwaith Canlyniadau**.



Maen nhw wedi rhannu syniadau i helpu i greu'r **Fframwaith Canlyniadau.**


## Sut bydd y **Fframwaith Canlyniadau** yn gweithio?



Byddwn yn cyfrif pethau fel faint o bobl sydd wedi cael help i ffeindio cartref.



Bydd hynny'n dangos i ni pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud i roi diwedd ar ddigartrefedd.



Bydd yr wybodaeth i gyd yn y **Fframwaith Canlyniadau**.




Bydd yn dangos i ni a ydyn ni'n agos at gyrraedd ein nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.



Bydd y **Fframwaith Canlyniadau** yn cael ei newid bob hyn a hyn i wneud yn siŵr ei fod yn dangos yr wybodaeth fwyaf diweddar.



# Sut olwg fydd ar y Fframwaith?

Mae'r **Fframwaith Canlyniadau** yn canolbwyntio ar 6 ffordd o roi diwedd ar ddigartrefedd:

1. **Prin:** Mae hyn yn golygu does dim llawer o bobl yn ddigartref. Mae angen helpu pobl mor gynnar â phosibl er mwyn eu hatal rhag mynd yn ddigartref.

2. **Byrhoedlog:** Mae hyn yn golygu ychydig bach o amser. Mae angen help yn gyflym ar bobl sy'n mynd yn ddigartref.

3. **Ddim yn digwydd eto:** Mae hyn yn golygu fod pobl ddim yn ddigartref fwy nag unwaith yn eu bywyd.

4. **Gweithlu:** Y gweithlu yw'r bobl sy'n gweithio yn rhywle. Rydyn ni eisiau gweithlu da a chryf sydd â sgiliau da i helpu pobl sy'n ddigartref.

5. **Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus:** Mae hyn yn golygu'r cyrff sy'n helpu pobl yn eu cymunedau. Dylai'r Gwasanaethau Cyhoeddus allu gwneud yn siŵr bod rhywun yn teimlo'n ddiogel ac yn cael yr help sydd ei angen.

6. **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae hyn yn golygu gwneud y person y peth pwysicaf mewn unrhyw sgwrs. Mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac mewn ffordd sy'n eu siwtio nhw.



# Rydyn ni am glywed eich barn chi

Ydych chi'n meddwl mai'r 6 maes ar dudalen 11 yw'r pethau iawn i feddwl amdanyn nhw wrth drïo rhoi diwedd ar ddigartrefedd?

Ticiwch 1 blwch:

Ydw ☐


Nac ydw ☐

Ddim yn gwybod ☐

Os **Ydw** – yw'ch ateb, esboniwch yn y blwch ar **dudalen 13** pam eich bod yn meddwl mai dyma'r pethau sydd eisiau eu rhoi yn y fframwaith.

Os **Na** yw'ch ateb, esboniwch yn y blwch ar **dudalen 13** pam eich bod yn meddwl dylen ni **ddim** rhoi'r pethau hyn yn y fframwaith.

Neu oes yna bethau eraill y dylen ni eu rhoi yn y **fframwaith**? Rhowch wybod yn y blwch ar **dudalen 13**.




Rydyn ni wedi gofyn y cwestiwn pwysicaf yn y ddogfen, ond mae yna gwestiynau eraill yn y prif **ymgynghoriad**, fel sut mae mesur pa mor dda rydyn ni'n wneud i roi diwedd ar ddigartrefedd.




Gallwch ateb hwnnw hefyd os hoffech chi. Ond nid yw'n fersiwn hawdd ei darllen.

I weld y cwestiynau i gyd yn y **Fframwaith Canlyniadau**, cliciwch ar www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd

# Geiriau anodd

**Fframwaith Canlyniadau**
Ffordd o fesur a yw rhywbeth yn gweithio'n dda.

**Ymgynghoriad**
Mewn ymgynghoriad, rydyn ni'n gofyn i lawer o bobl beth maen nhw'n feddwl am rywbeth. Gallwn wneud hynny trwy siarad, rhoi holiadur neu ffordd arall.

**Prin**
Ddim yn digwydd yn aml.

**Byrhoedleg**
Ddim yn para'n hir .

**Ddim yn digwydd eto**
Ddim yn digwydd mwy nag unwaith.

**Gweithlu**
Pobl sy'n gweithio yn rhywle.

**Gwasanaeth Cyhoeddus**
Corff sy'n helpu pobl yn eu cymunedau .

**Canolbwyntio ar yr unigolyn**
Rhoi'r person yn gyntaf wrth wneud penderfyniadau.